



Siarter Iaith Gymraeg Ysgolion Cynradd Gwynedd

Ymweliad Dilysu'r Wobr Efydd

Ysgol: Bro Plenydd, Y Ffôr

Dyddiad: 20/6/2014

Tystiolaeth	Ydy	Nac Ydy	Sylwadau
<p>Gweledigaeth yr Ysgol Cofnodion/tystiolaeth o drafodaeth berthnasol sy'n cefnogi'r ffaith bod:</p> <p>*cyfarfod Corff Llywodraethol wedi trafod gweledigaeth ✓</p> <p>*cyfarfod staff wedi trafod gweledigaeth ✓</p> <p>*cyfarfod Cyngor Ysgol wedi trafod gweledigaeth ✓</p> <p>Cynllun Datblygu Ysgol: *gweledigaeth yr ysgol i'w ganfod fel rhan amlwg o'r Cynllun Datblygu Ysgol ✓</p> <p>*gwybodaeth gefndirol fel sail i lunio a chynnwys y weledigaeth fel rhan o'r CDY ✓</p>			<p>Tystiolaeth o weledigaeth heriol a luniwyd gan y Corff Llywodraethwyr/Staff.(Ionawr 2013) Gweledigaeth heriol,gyraeddadwy sy'n seiliedig ar wybodaeth gefndirol yr ysgol, megis demograff o'r ardal a gwybodaeth gefndirol. Cyfraniad gan y Staff i'r weledigaeth. Y Cyngor Ysgol wedi trafod y weledigaeth gan weithredu ar dargedau'r ysgol</p> <p>Ymgorfforwyd y Siarter o dan y Fframwaith Llythrennedd (Llafar) y C.D.Y. Gwybodaeth gefndirol yn allweddol i'r weledigaeth</p>
<p>Disgyblion Cyngor Ysgol:</p>			<p>Dyma rai o sylwadau'r Cyngor Ysgol</p>

<p>*cofnodion/tystiolaeth yn dangos fod y Siarter Iaith wedi ei thrafod</p>	✓	<p>'Mae siarad Cymraeg yn bwysig i mi.' 'Dwi' falch fy mod yn Gymraes.' 'Petai'r iaith yn marw mi fuaswn yn ddigalon iawn.' 'Mi fydd gallu siarad y ddwy iaith yn help mawr.' Y sylwadau yn rhan o wal y Siarter Iaith/Camau tua'r Copa yn Ffreutur yr ysgol. Rhoddwyd cyflwyniad ganddynt i'r ysgol yn amlinellu eu cyfrifoldeb i wireddu'r nodau.</p>
<p>Cyfweld disgyblion i wirio: *a ydynt yn ymwybodol o nod, gofynion ac arwyddocâd y Siarter Iaith</p> <p>*a thrafod targedau sy'n berthnasol i'w hysgol. *pa weithredu sydd wedi bod ar ran y cyngor ysgol i gynnal agwedd iach/hyrwyddo/ cynyddu defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg. *pa dystiolaeth sy'n dangos cynnydd mewn unrhyw agwedd o weithredu'r Siarter Iaith (Gwobr Arian yn benodol)</p>	✓ ✓	<p>Y plant yn deall arwyddocad y Siarter Iaith Gallu trafod yn hyderus eu targedau dosbarth o ran hyrwyddo iaith raenus. Gweld cyfle i sicrhau cywirdeb iaith wrth weini bwyd gan ei chyfoethogi ag idiomau pwrpasol e.e.Bendigedig! Llund fy mol.Blas chwaneg! Rôl allweddol ganddynt yn hyrwyddo'r chwaraeon buarth Cymreig gyda'r plant iau.</p>
<p>Arsylwi: *parodrwydd plant i siarad gyda'r athro a'u cyfoedion yn y Gymraeg yn y dosbarth, y neuadd ginio ac ar fuarth yr ysgol. (Dibynnol ar weledigaeth yr ysgol a'i chefnidir ieithyddol)</p> <p>*parodrwydd plant i ymateb i ofynion y Siarter (yn ôl gweledigaeth ysgolion unigol)</p>	✓ ✓	<p>Gallaf dystio mai Cymraeg yw iaith yr ysgol a'r buarth. Cymraeg yw'r cyfrwng cyfathrebu rhwng plant ac oedolion, ac oedolion a phlant. Ystyriwyd y Siarter yn her ac aeth y plant ati i ysgwyddo'r cyfrifoldeb am rymuso'r iaith.</p>
Rhieni		
<p>Gwybodaeth a thystiolaeth berthnasol sy'n gwirio bod rhieni: *yn ymwybodol o dargedau a nod y Siarter Iaith</p>	✓	<p>Y rhieni yn ymwybodol o dargedau'r ysgol a nod y Siarter Iaith.</p>

<p>*yn derbyn gwybodaeth am gyrsiau 'Cymraeg i Oedolion' * wedi bod yn rhan o gyflwyniadau i gyflwyno'r Siarter a'u bod wedi derbyn y pamffledi gwybodaeth sy'n cynnwys manylion am y Siarter Iaith.</p>	✓		<p>Rhodddwyd cyflwyniad dwyieithog i'r rhieni(Mehefin 2014) Nodwyd</p> <ul style="list-style-type: none"> • manteision dwyieithrwydd • codwyd ymwybyddiaeth o ddiwylliant • parhad yr iaith <p>Gohebiaeth dalgylchol i rieni i'w hysbysu o nod y Siarter Iaith Rhannwyd holiaduron iaith i rieni'r dalgylch. Rhodddwyd cyfleoedd iddynt fynychu cyrsiau Cymraeg. Dosbarthwyd pamffledi'r Siarter Iaith.</p>
Llywodraethwyr			
<p>Tystiolaeth ar lafar/cofnodion sy'n gwirio bod:</p> <p>*y Llywodraethwyr yn llwyr ymwybodol ac yn cefnogi'r ysgol i weithredu amcanion a thargedau'r Siarter Iaith</p> <p>*aelod dynodedig o'r Corff wedi'i ethol i fod â chyfrifoldeb am y Gymraeg a'r Siarter Iaith</p> <p>*yr aelod dynodedig yn cyflawni rôl weithredol wrth gefnogi ymdrechion yr ysgol i weithredu gofynion y Siarter Iaith</p>	<p>✓</p> <p>✓</p> <p>✓</p>		<p>Y Llywodraethwyr â rôl weithredol yng nghreu'r weledigaeth. Gweledigaeth yr ysgol o ran y Siarter Iaith yn rhan greiddiol o weledigaeth yr ysgol gyfan. Llywodraethwr dynodedig wedi ei ethol gan ysgwyddo'r cyfrifoldeb am y Siarter drwy</p> <ul style="list-style-type: none"> • ymweld â'r ysgol yn ystod amser egwyl /cinio i wirio Camau Tua'r Copa,gan arsylwi ar y defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg. • Wedi ymweld â sesiwn Mair Tomos Evans ar chwaraeon buarth. <p>Y Llywodraethwyr Cymunedol yn codi ymwybyddiaeth o'r Siarter Iaith yn y Cyngor Cymuned.</p>
Gweithlu			
<p>Tystiolaeth ar lafar/cofnodion sy'n gwirio bod y gweithlu cyfan: *wedi ymrwymo i gefnogi holl amcanion a thargedau'r Siarter Iaith</p>	✓		<p>Wedi ymrwymo i'r Siarter drwy fod â rhan</p>

<p>*yn cymryd rhan weithredol wrth roi'r Siarter ar waith</p> <p>*yn cael cyfle i rannu straeon llwyddiant ac arferion da</p>	<p>✓</p> <p>✓</p>		<p>weithredol yn llunio'r weledigaeth a 'Chamau Tua'r Copa.'</p> <p>Yr holl weithlu yn defnyddio'r strategaethau canlynol gyda'r plant</p> <ul style="list-style-type: none"> • defnyddio patrymau iaith addas • cywiro iaith • troi sgysiau dysgwyr i'r Gymraeg. <p>Cyfarfodydd staff cyson i fonitro cynnydd disgyblion o ran 'Camau Tua'r Copa.'</p> <p>Gwobrwyir eu hymdrechion.</p>
Hyfforddi			
<p>Tystiolaeth ar lafar/cofnodion sy'n gwirio bod:</p> <p>*yr holl weithlu yn ymwybodol o strategaethau'r ysgol i gyflawni nod y Siarter Iaith, a'u bod yn eu cyflawni</p>	<p>✓</p>		<p>Atebolrwydd y gweithlu i'r pennaeth i sicrhau fod unrhyw strategaethau/cynlluniau y dysgir amdanynt mewn cyrsiau yn cael eu rhoi ar waith ac yn cael eu monitro.</p>
Tystiolaeth			
<p>Tystiolaeth berthnasol sy'n gwirio:</p> <p>*taith yr ysgol i ymgynraedd at wobwr efydd/arian y Siarter Iaith</p> <p>*straeon llwyddiant</p> <p>*bod na fesur effaith a chynnydd i'r defnydd cymdeithasol neu unrhyw agwedd o hyrwyddo'r Gymraeg e.e. agweddau disgyblion tuag at yr iaith</p>	<p>✓</p>		<ul style="list-style-type: none"> • Jambori Dalgylchol • Clwb cerdded –(Hanes lleol.Yr hanesydd J.Dilwyn Williams yn arwain) • Clwb cerdded –(Natur leol.Y naturiaethwr Twm Elias yn arwain) • Eisteddfod Gŵyl Ddewi yr Ysgol • Eisteddfod Y Ffôr-Disgyblion yr ysgol yn ffurfio'r osgordd eisteddfodol. • Gweithdy Barddoniaeth-Caren Owen • Storiâu yn y Cyfnod Sylfaen-Angharad Tomos • Ymweliadau i atgyfnerthu'r Cwricwlwm Cymreig.

- Gweledigaeth heriol fydd yn cyfoethogi a mireinio iaith y disgyblion.
- Cyfoeth o gyfleoedd i ysbrydoli'r disgyblion am ein treftadaeth Gymreig.
- Y Cyngor Ysgol/disgyblion yn weithredol yng ngweithdrefnau'r Siarter Iaith.
- Defnyddio'r graff(Seren Ddeiliant) fel cyfrwng blaenoriaethu cynnydd ac effaith.
- Parhau i hybu'r Siarter drwy'r Fframwaith Llythrennedd o fewn y C.D.Y.
- Defnyddio Gwefan Yr Ysgol i hybu digwyddiadau'r Siarter (gadael i'r Cyngor Ysgol ysgwyddo'r cyfrifoldeb.)

Camu `mlaen

- Defnyddio'r graff(Seren Ddeiliant) fel cyfrwng blaenoriaethu cynnydd ac effaith.
- Parhau i hybu'r Siarter drwy'r Fframwaith Llythrennedd o fewn y C.D.Y.
- Defnyddio Gwefan Yr Ysgol i hybu digwyddiadau'r Siarter (gadael i'r Cyngor Ysgol ysgwyddo'r cyfrifoldeb.)

Eirian Pritchard